Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.


This document is available in Welsh as well as English.

Ionawr – Mawrth 2025

## Diweddariad Chwarterol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd:

## Mis Ionawr — mis Mawrth 2025 — Data o'r Ddalfa

| Cyfanswm yr oedolion a gedwir yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion a gedwir yn y ddalfa | Cyfanswm y gwrywod | Cyfanswm y benywod | Cyfanswm yr unigolion rhyngryw | Cyfanswm sy'n anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1714 | 74 | 1788 | 1444 | 326 | 1 | 17 |




Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Ionawr – Mawrth 2025

## Mis Ionawr — mis Mawrth 2025 — Data gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

| Nifer yr ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa | Cyfanswm unigolion a gedwir yn y ddalfa ar adeg ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa | Cyfanswm yr oedolion a gedwir yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa | Nid yw cyfanswm yr unigolion a gedwir yn y ddalfa ar gael | Nifer yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yr arsylwyd arnynt | Cyfanswm nifer yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yr ymwelwyd â nhw | Cyfanswm yr unigolion gwrywaidd a gedwir yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 39 | 95 | 90 | 5 | 20 | 21 | 60 | 51 | 9 |




Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa Presennol:17


- Sir Benfro: 5
- Powys: 4
- Ceredigion: 2
- Sir Gaerfyrddin: 6


*Ar hyn o bryd mae dau ymgeisydd newydd sydd yn y broses o gael eu gwirio. Mae tri gwirfoddolwr hefyd yn cael seibiant dros dro o'r cynllun.*


Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner


Ionawr – Mawrth 2025

**Amseroedd ymweliadau:**



Ionawr – Mawrth 2025

**Diweddariad Cynllun:**

| |
|---|
| **Materion o ran staffio**<br><br>• Roedd problemau yn ymwneud â staffio dim ond yn broblem yn achos un ymweliad. Amlygodd y broblem honno yn Hwlffordd lle nododd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fod y ffaith nad oedd digon o staff ar gael wedi effeithio ar hawliau unigolion a gedwir yn y ddalfa i allu defnyddio'r iard ymarfer corff a chael mynediad at y cawodydd. |
| **Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, galwadau opsiwn 1 ac eitemau crefyddol**<br><br>• Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, galwadau opsiwn 1, nac eitemau crefyddol yn ystod y chwarter diwethaf. |
| **Atgyweiriadau**<br><br>• Atgyweiriadau oedd y mater mwyaf amlwg a amlygwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ystod y chwarter diwethaf. Roedd yr atgyweiriadau hyn yn cynnwys:<br>- Hwlffordd — celloedd nad ydynt wedi'u gwresogi'n ddigonol.<br>- Aberhonddu — goleuadau yng nghell dau ac yn y storfa dillad gwely.<br>- Aberystwyth — roedd prif ddrws y ddalfa wedi torri ac roedd y system damper tân yng nghell 1 yn ddiffygiol. Tynnwyd sylw hefyd at faterion mewn perthynas â thoiled y staff *(gweler cyfleusterau toiled am fwy o fanylion)*.<br>• Yn Aberhonddu ac Aberystwyth, yr amser a gymerwyd i wneud gwaith atgyweirio oedd bron i fis ar gyfartaledd. A oes problem o ran ystadau yn peidio â bwrw ymlaen ag atgyweiriadau mewn rhai dalfeydd? |

**Cyfleusterau toiled**

- Nododd Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn Aberystwyth fod toiled y staff ddim yn gweithio o 8 Ionawr ac wedi parhau i beidio bod ar gael drwy gydol eu hymweliadau dilynol ar 5 Chwefror 2025 lle’r oedd staff yn dal i roi gwybod am broblemau ynghylch hyn. Codwyd y pryder bod yn rhaid i staff gael awdurdodiad gan arolygydd i ganiatáu i staff ddod o hyd i rywun i gyflenwi ar eu cyfer tra bod angen iddynt fynd i'r toiled.
- Yna nododd yr Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa fod yr ystafell doiled wydr yn Aberystwyth yn cael ei defnyddio i storio offer y glanhawr.

**Hygyrchedd o ran unigolion anabl**

- Nododd yr Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa nad oedd yr arwydd ‘dolen glyw’ yn Hwlffordd wedi'i leoli lle gallai unigolion a gedwir yn y ddalfa ei weld yn hawdd.
- Ni chafwyd unrhyw adroddiadau eraill yn ymwneud ag unigolion anabl yn ystod y chwarter diwethaf.

**Sylwadau cadarnhaol**

- Gwnaed nifer o sylwadau cadarnhaol gan Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn ystod y chwarter diwethaf, gan gynnwys:

-*“Roedd lefel y gofal yn uchel iawn… Dywedodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yng nghell L6 ei fod yn dioddef o orbryder ac yn teimlo na allai anadlu. Rhoddodd y ddalfa eitemau iddo a oedd yn tynnu eu sylw, rhoiddwyd mynediad iddo i'r iard ymarfer corff, a dangoswyd proffesiynoldeb a gofal wrth ryngweithio ag ef. Yn yr un modd, roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yng nghell R2 yn ymddangos yn orbryderus hefyd, a briodolodd i'w angen i ysmygu rhywfaint o ganabis. Roedd ef hefyd wedi cael cynnig y cyfle i ddefnyddio'r iard ymarfer corff ac wedi cael cynnig eitemau i dynnu eu sylw. Roedd y ddau unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.”*

— *“Mae staff yn hapus i drafod materion. Dangoswyd y nodiadau braille i ni ar gyfer carcharorion dall a’r DVD Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer unigolion byddar a gedwir yn y ddalfa.”*

*-"Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael ei gyfweld pan gyrhaeddon ni ond yna roedd ar gael i ni ei weld. Mae ganddi Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ac mae hi ar y sbectrwm awtistiaeth. Roedd oedolyn priodol yn bresennol yn ystod ei chyfweliad. Gwnaeth sylwadau cadarnhaol am y ffordd yr oedd hi wedi cael gofal.*

*-"Cafodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa groeso cynnes iawn ac roedd lefelau rhagorol o gyfathrebu. Mae'n drawiadol bod staff y ddalfa wedi llunio bwydlen i unigolion a gedwir yn y ddalfa er mwyn iddynt ddewis prydau ohoni — mae'r fwydlen hon yn cael ei harddangos wrth ddesg y ddalfa, ynghyd ag arwydd dolen glyw."*

*-"Roedd rhingyll y ddalfa yn ymatebol i anghenion yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Soniodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei fod wedi gofyn i'w chwaer gael gwybod ei fod yn y ddalfa — dywedodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa nad oedd unrhyw ymgais wedi'i gwneud neithiwr, a'r bore yma dywedwyd wrtho nad oedd ei chwaer yn ateb y ffôn. Hysbyswyd rhingyll y ddalfa, a phan oeddem ni ar fin gorffen yr ymweliad, roedd yn gallu cadarnhau ei fod wedi siarad â chwaer yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa.*

*Dywedodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa hefyd nad oedd yn teimlo fel bwyta oherwydd straen (nad oedd wedi ei hachosi'n benodol gan ei gaethiwed). Cyn gynted ag y gwnaethom orffen cyfweld â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa, siaradodd rhingyll y ddalfa ag ef ac fe lwyddodd i'w berswadio i yfed diod a bwyta creision.*

*Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi mynegi rhai pryderon ynghylch ei lesiant. Roedd y carcharor i gael ei gyfweld yn fuan a chadarnhaodd rhingyll y ddalfa y byddai asesiad i ganfod a oedd yn iawn i gael ei ryddhau yn cael ei gynnal."*

- Cyfeiriodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa at gwrteisi a chymwynasgarwch staff y ddalfa ar saith achlysur, sy'n dangos y berthynas gref rhwng cynllun yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a'r heddlu.

**Materion 'eraill' a nodwyd**

- **Nwyddau mislif ar gyfer menywod**: gofynnwyd cwestiynau ynghylch storio'r cynhyrchion hyn yn Hwlffordd.

Ionawr – Mawrth 2025

- **Y seiniwr allanol** — codwyd mater gydag Aberystwyth yn ymwneud â'r ffaith mai dim ond trwy'r brif dderbynfa y gellir cael mynediad i'r ddalfa. Mae problemau o ran Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa y tu allan i oriau gan nad ydynt yn gallu cael mynediad ar unwaith, ac mae'n rhaid iddynt gysylltu â 101. Mae hyn yn arwain at oedi hir naill ai pan maent yn siarad â'r unigolyn sy'n trin y galwadau neu pan mae'r unigolyn sy'n trin y galwadau yn cysylltu â'r ddalfa. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn awgrymu y dylai fod seiniwr allanol ar gael i sefydliadau allanol gan gynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol, cyfieithwyr, ac oedolion priodol er mwyn iddynt allu cael mynediad.
- **Esgidiau cynfas** — gofynnir i unigolion a gedwir yn y ddalfa yn rheolaidd a hoffent wisgo esgidiau cynfas os gofynnir iddynt dynnu eu hesgidiau. Yn Hwlffordd, cafodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drafodaeth lle nad oeddent yn cael eu cynnig gan eu bod yn cael eu taflu unwaith y cânt eu hagor. Felly ni fydd yr heddlu yn mabwysiadu system awtomatig o gynnig esgidiau cynfas i unigolion a gedwir yn y ddalfa gan fod hyn yn golygu goblygiadau sylweddol o ran cost.
- **Pryder ynghylch clymiadau** — gofynnodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a oes angen iddynt gymryd deunydd y gellir ei ddefnyddio i wneud clymiadau megis lasys a/neu gortynnau dillad oddi wrth unigolion a gedwir yn y ddalfa sydd ar lefel 1, arsylwadau 30 munud gan staff. Cyfeiriodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa at y Coleg Plismona sy'n datgan ar lefel 3 i 'gael gwared ar glymiadau'. A yw'r diwylliant hwn sy'n groes i risg yn peryglu hawliau ac urddas unigolion a gedwir yn y ddalfa?
- **Hylendid** — nododd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa broblem o ran y biniau a ddarperir yn Hwlffordd. Cwestiynodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa pa mor lan yw'r biniau hyn gan fod angen pwyso i lawr ar y bin i'w agor er mwyn gwaredu gwastraff. Cafodd y biniau pedal eu cyrchu gan yr heddlu a'u darparu i'r ddalfa ar ôl cael yr adborth hwn.
- **Diffyg dillad gwrth-niwed** — Gwnaeth yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drafod y cynllun arfaethedig i dynnu'r dillad gwrth-niwed o ddalfeydd a gwnaethant rannu rhai pryderon a godwyd gan staff mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael i liniaru risg unigol. Cynigiodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a ellid cael wared â'r dillad gwrth-niwed yn raddol i gynorthwyo staff y ddalfa ac a fyddai unrhyw benderfyniad i'w defnyddio yn gofyn am awdurdodiad arolygydd.
- **Poster arfaethedig** — mae staff y ddalfa yn y Drenewydd ac Aberystwyth wedi nodi y byddent yn hoffi poster sy'n nodi na fydd cam-drin gan unigolion a gedwir yn y ddalfa tuag at staff yn cael ei oddef.
- **Marciwr ar gyfer Mecca** — mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi cynnig y dylid rhoi marciwr ar wal y ddalfa sy'n pwyntio tuag at Mecca ar gyfer unigolion Mwslim a gedwir yn y ddalfa i'w helpu i allu gwynebu'r cyfeiriad cywir pan maent yn gweddïo. Mae arolygwyr

| |
|---|
| y ddalfa wedi nodi bod gan unigolion Mwslim a gedwir yn y ddalfa gwmpawd ar eu matiau gweddi, ond mae angen sefydlu a yw'r cwmpawd wedi'i wnïo i'r mat neu a yw'n gwmpawd ar wahân. |
| <u>**Cyfarfod ynghylch perfformiad y ddalfa**</u><br><br>• Bob mis, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cael gwahoddiad i fynd i'r cyfarfod ynghylch perfformiad y ddalfa, a gynhelir gan y Prif Arolygydd Jenna Jones, sef y fforwm a gynhelir gydag arolygwyr dalfeydd lleol i drafod meysydd arferion da a meysydd i'w gwella. Yn y cyfarfodydd hyn, rhoddir pwyslais sylweddol ar y materion canlynol:<br>- Plant a gedwir yn y ddalfa<br>- Benywod a gedwir yn y ddalfa<br>- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol<br>- Adolygiadau cysgu<br>• Mae gwybodaeth a ddysgir o'r cyfarfodydd hyn yn cael ei rhannu ag Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn eu diweddariadau wythnosol at ddibenion gwyliadwriaeth. |
| <u>Digwyddiad Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu</u><br><br>• Yn ystod mis Chwefror, darparodd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ddigwyddiad fideo mewn cydweithrediad â Chymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Pwrpas y digwyddiad oedd addysgu a grymuso Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn eu rôl ac i egluro pwy yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a gwybodaeth gefndirol ynghylch proses gwynion yr heddlu. |
| <u>Hyfforddiant Gymraeg</u> |

Ionawr – Mawrth 2025

- Fel rhan o strategaeth Gymraeg Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2024/2025, cynigiwyd cyfle i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wella eu sgiliau yn y Gymraeg. Gwnaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gefnogi Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a gwirfoddolwyr eraill i ddysgu Cymraeg lefel un dros y chwarter diwethaf, mewn cydweithrediad â thiwtor Cymraeg yr heddlu.

**Cyfarfod Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa**

- Cynhaliwyd Cyfarfod Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ar-lein ar 20 Ionawr 2025 pan rhoddodd gwasanaeth y ddalfa ddiweddariad cynnydd ynghylch darpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gan y darparwr newydd, cynnydd a wnaed mewn perthynas â defnyddio profion cyffuriau wrth arestio ar gyfer y cynllun peilot gyda Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, a gwelliannau yn y rota ar gyfer staff y ddalfa i wella gwydnwch staffio.
- Rhoddodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddiweddariadau mewn perthynas â rheolwr cynllun newydd sy'n cymryd yr awenau yn ardal Sir Benfro a Cheredigion a thynnodd sylw at wahoddiad agored a roddwyd i unrhyw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sydd â diddordeb dod yn Gadeirydd newydd a fydd yn hwyluso cyfarfodydd panel yn y dyfodol.

**Recriwtio**

- Mae dau aelod newydd wedi cael eu cynnwys yn ein cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Ar hyn o bryd maen nhw'n cefnogi rhanbarthau Sir Benfro a Cheredigion.
- Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd gael pedwar cais arall a fydd yn cefnogi ardaloedd Gogledd a De Powys, yn ogystal ag ardaloedd Sir Gaerfyrddin.

**Ymateb yr Heddlu:**

Mewn perthynas â'r sylwadau uchod, dyma farn yr Arolygydd Andrew Rogers, sy'n gwneud sylwadau ar ran Heddlu Dyfed-Powys am y chwarter diwethaf:

| |
|---|
| *“Rwy’n falch o weld bod y berthynas waith gref yn parhau rhwng Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa a staff dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys.  Mae'n bleser gweld cymaint o sylwadau cadarnhaol a wnaed gan Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa mewn perthynas â'r croeso a gawsant gan staff dalfeydd, yn ogystal â'r sylwadau cadarnhaol gan unigolion a gedwir yn y ddalfa a drosglwyddwyd i Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa ynghylch y driniaeth a gawsant yn y ddalfa.*<br><br>*Nodaf mai dim ond un mater a godwyd ynghylch staffio, sy'n gadarnhaol o ystyried bod staffio wedi'i godi fel mater yn aml mewn adroddiadau blaenorol.*<br><br>*Mae darpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd yn gadarnhaol ac mae'r contract meddygol newydd wedi sicr ein bod wedi cyflenwi 100% yn rheolaidd ar draws pob dalfa ac yn sicrhau y gallwn ddarparu lefel uchel o ofal meddygol i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa.  Mae “Visionable” yn cael ei dreialu ar hyn o bryd yn Nalfa Aberhonddu, sef yr unig dalfa heb ddarpariaeth feddygol fewnol, ac mae hyn yn cael ei fonitro a'i ddiwygio yn unol â hynny yn dilyn adborth a gafwyd gan staff y ddalfa yn Aberhonddu.*<br><br>*Mae'r pryderon ynghylch atgyweiriadau'n cael eu cynnal yn gyflym wedi'u nodi ac rwy'n cofio trafod y mater hwn gyda'r Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn ystod cyfarfod diweddar panel Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa.  Mae'r mater hwn wedi'i godi gyda'r Adran Ystadau ac, rwy'n credu bod y materion uchod bellach wedi'u datrys.  Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro a bydd unrhyw oedi pellach yn cael ei drafod gydag Ystadau.*<br><br>*O ran “phryderon eraill a godwyd”, mae diweddariadau i’w darparu ar gyfer nifer o’r pryderon hyn.  O ran cymryd lasys, cortynnau, ac ati; nid yw hyn yn cael ei wneud yn awtomatig gan swyddogion y ddalfa mwyach.  Gofynnir i swyddogion y ddalfa asesu risg yn unol â hynny a dangos tystiolaeth o reoli risg mwy effeithiol yn eu cynlluniau gofal.  Yn ystod archwiliadau, rydym bellach yn gweld carcharorion yn cael aros yn eu dillad/esgidiau eu hunain yn rheolaidd yn dilyn asesiad risg gan swyddog y ddalfa.  O ran defnyddio dillad gwrth-niwed, mae'r prif swyddogion wedi penderfynu y dylid tynnu’r dillad gwrth-niwed o bob uned ddalfa ar unwaith ac na ddylid eu defnyddio mwyach gan Heddlu Dyfed-Powys.  Ni wnaed y penderfyniad hwn heb lawer o ystyriaeth ac fe'i gwnaed yn dilyn ymchwil helaeth i ddefnydd dillad gwrth-niwed gan Heddlu Dyfed-Powys dros gyfnod estynedig o amser ac adolygiad o'r rhesymau dros eu defnyddio.  Cyn i'r penderfyniad hwn gael ei wneud, nid oedd dillad gwrth-niwed* |

| | |
|---|---|
| *wedi cael eu defnyddio gan Heddlu Dyfed-Powys ers mis Tachwedd 2024 ac roedd yn amlwg bod risg yn cael ei rheoli yn fwy effeithiol o ran y penderfyniadau a wnaed gan swyddogion y ddalfa a bod dewisiadau eraill yn lle dillad gwrth-niwed yn cael eu hystyried.*<br><br>*Hoffwn ddiolch i'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa am eu hadborth parhaus, eu cefnogaeth i'n hunedau dalfa, a'u presenoldeb mewn Paneli Craffu ar Ddalfeydd sy'n ein galluogi i barhau i fod yn atebol ac yn dryloyw o ran y ffordd yr ydym yn trin unigolion a gedwir yn y ddalfa."* | |